| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gweithgaredd Gwylio a Deall yn seiliedig ar gyfweliad Cymraeg â Jane Wyn |
| Disgrifiad: | Gwylio fideo lle mae Jane Wyn yn sôn am y cysylltiad rhwng Cei Newydd a Dylan Thomas ac ateb cwestiynau gwrando a deall |
| Grwpiau blwyddyn | CA3 - Blwyddyn 8/9 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Llafaredd<br>• gwrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Fideo Jane Wyn https://www.youtube.com/watch?v=jm8TyfvwIuU<br>• Adnodd y Dysgwyr – Cyfweliad â Jane Wyn (y dudalen nesaf) |
| Trefn addysgu: | • Esbonio bod Jane Wyn yn Bennaeth Ysgol Uwchradd Tregaron ac yn addysgu Saesneg.<br>• Dosbarthu'r adnodd, darllen drwy'r cwestiynau fel bod pawb yn eu deall.<br>• Gwylio'r fideo gymaint o weithiau sydd angen er mwyn ateb y cwestiynau.<br>• Trafod yr atebion. |
| Gweithgaredda u estyn: | • Trafod tafodiaith: O ba ran o Gymru mae Jane Wyn yn dod? Edrychwch ar y fideo eto a chasglu tystiolaeth o hyn. |

**ADNODD Y DYSGWYR - Cyfweliad â Jane Wyn**
Mae Jane Wyn yn Bennaeth Ysgol Uwchradd Tregaron ac yn athrawes Saesneg. Yn y fideo hwn, mae'n trafod cysylltiad Dylan Thomas â Chei Newydd.

**Gwylio a Deall**
Gwyliwch y fideo ac ateb y cwestiynau hyn.

1. Pryd bu Dylan Thomas a Caitlin yn treulio llawer o amser yng Nghei Newydd?

2. Pam bu Dylan yn treulio amser yn yr ardal yn y 1930au?

3. Pam mae Jane Wyn yn credu mai Cei Newydd oedd lleoliad 'Under Milk Wood'? Nodwch dri neu bedwar pwynt.

4. Beth oedd yn rhan bwysig o gefndir Dylan Thomas?

5. Heddiw, beth yw'r adeilad oedd yn swyddfa'r post pan oedd Dylan Thomas yn byw yng Nghei Newydd?

6. Beth yw'r dystiolaeth fwyaf mai yng Nghei Newydd y cafodd 'Under Milk Wood' ei leoli?

7. Beth oedd enw hoff dafarn Dylan Thomas?